## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD NOS FAWRTH 4 MEHEFIN 2024 AM 5.30pm**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, D. Cushing, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, B. Miles (Is-Gadeirydd), T. Parry (Cadeirydd), J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens, a J. Winslade.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd C. Andrews (Addysg a Chymunedau).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau i Oedolion), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), A. West (Rheolwr Gwasanaethau Llunio Lleoedd a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy), P. Warren (Arweinydd Strategol Gwella Ysgolion), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), J. Duggan (Pennaeth Cynorthwyol), K. Honey (Prif Seicolegydd Addysg), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), L. Pine (Swyddog Lles Addysg Arweiniol), C. Parry (Ysgol Lewis Pengam), L. Denton (Ysgol Gyfun Lewis i Ferched), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorwyr S. Morgan a J. Pritchard, a'r Aelod Cyfetholedig Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Woodland, Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwyr), Mrs P. Ireland (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), Mrs K. Cole (Yr Undeb Addysg Cenedlaethol), a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili). | Ddim yn berthnasol |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 4. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms. | Unfrydol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor. | |
| 5. | Bwrdd ôl-16, Un Rhyw a Lleoedd Dros Ben – Cynnig i Gau Ysgol Gyfun Lewis i Ferched a gwneud newid a reoleiddir i Ysgol Lewis Pengam. | Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r pecyn ymgynghori oedd ynghlwm.<br><br>Cynigiodd yr aelodau eu barn fel rhan o'r broses ymgynghori ar y cynnig a fydd yn cael ei nodi fel rhan o gofnodion y cyfarfod a'i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o'r broses benderfynu. | Ddim yn berthnasol |
| 6. | Cynnydd o ran gweithio gydag ysgolion i ymgorffori dulliau gweithredu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n effeithio ar leihau gwaharddiadau. | Ar ôl ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad, cynigiodd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol farn a sylwadau, a chynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo'r dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i ymgorffori dulliau gweithredu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n effeithio ar leihau gwaharddiadau. | Unfrydol |
| 7. | Presenoldeb disgyblion. | Ar ôl ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol effaith strategaethau i wella presenoldeb disgyblion a chafodd yr Aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, ceisio eglurhad pellach a chynnig barn. | Ddim yn berthnasol |

**Dosbarthiad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Mercher 12 Mehefin 2024.